Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

29 Tachwedd 2017
12.15 – 13.15
Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

YN BRESENNOL:		
Lee Waters (Cadeirydd dros dro)	**LW**	Llanelli, (Llafur Cymru)
Maddie Rees	**MR**	Staff Cymorth David Rees AC
Brigid Bowen	**BB**	Compassionate Mental Health / Gofal
Lewis Cole (ysgrifennydd)	**LC**	Gofal
Suzanne Duval	**SD**	Diverse Cymru
Ewan Hilton	**EH**	Gofal
Callum Hughes	**CH**	Conffederasiwn GIG Cymru
Richard Jones	**RJ**	Mental Health Matters Wales
Steve Mulligan	**SM**	Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain
Linda Newton	**LN**	Gweithredu dros Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro
Glenn Page	**GP**	Mind Cymru
Sarah Stone	**SS**	Y Samariaid
Manel Tippett	**MT**	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru
Jamie Westcombe	**JW**	Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Jon Willey	**JWi**	Hafal

DRAFT

CPGMH/NAW5/10 - Croeso	
Yn anffodus, galwyd **DR** i gyfarfod arall. Felly, croesawodd **EH** y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod cyffredinol blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl. Cafwyd ymddiheuriadau gan: • Simon Thomas AC • Neil Hamilton AC • Jeremy Miles AC • Alun Thomas, Hafal • Peter Martin, Hafal • Justin Irwin, Bipolar UK	
CPGMH/NAW5/11 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf	
WEDI'U CYMERADWYO Cofnodion y cyfarfod diwethaf.	**LC i'w hanfon at y Swyddfa Gyflwyno**
CPGMH/NAW4/54-Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol Blynyddol	**Camau i'w cymryd**
WEDI'U CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl.	**LC i'w hanfon at y Swyddfa Gyflwyno**
CPGMH / NAW5 / 13 - Ffocws a Blaenoriaethau'r Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer 2018	**Camau i'w cymryd**
Trafododd y grŵp y cynnydd a wnaed ar y tasgau a'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Gwelwyd cynnydd da o ran yr angen i wella'r broses o gasglu data sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd meddwl drwy weithredu'r set data craidd ynghylch iechyd meddwl, a hynny er mwyn asesu effeithiolrwydd y gefnogaeth a ddarperir. Mae'r sefyllfa lle nad yw gwariant ar ddementia yn cael ei wahanu o wariant ar iechyd meddwl yn parhau, ond mae'r pwynt hwn wedi'i godi. Mae aelodau o Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru wedi nodi dau faes i'w blaenoriaethu o ran gwaith y grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf: 1. Cyllid gwrth-stigma - Daw'r ail gam o ymgyrch Amser i Newid Cymru i ben ar 31 Rhagfyr 2017 (cyfnod o dair blynedd), a hynny heb unrhyw gadarnhad o gefnogaeth ar gyfer y dyfodol.	

DRAFT

2. Concordat Gofal Mewn Argyfwng – er bod cam cyntaf y prosiect yn datblygu'n dda, yn y pen draw, nid oes lleoedd diogel ar gael i bobl sy'n profi argyfwng iechyd meddwl.

Mae ymrwymiad i fynd i'r afael â'r stigma sy'n aml yn gysylltiedig ag iechyd meddwl yn rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru, ac mae ymgyrch Amser i Newid Cymru, sy'n ceisio lleihau gwahaniaethu a gwella agweddau ymhlith y cyhoedd, wedi bod ar waith ers 2012. Ar hyn o bryd, mae ail gam yr ymgyrch hon yn mynd rhagddo, a bydd y cam hwn yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae cynnig ar gyfer y trydydd cam wedi'i gyflwyno, gyda ffocws penodol ar iechyd meddwl ymhlith dynion a gwaith ynghylch gwella lles yn y gweithle. Ni chafwyd cadarnhad hyd yn hyn ynghylch a fydd cam 3 yn digwydd. Serch hynny, cafwyd cadarnhad y bydd y cam presennol yn cael ei ymestyn tan 31 Mawrth 2018 tra bydd y penderfyniad hwnnw'n cael ei wneud. Cytunodd y grŵp y dylid anfon llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn gofyn am eglurder pellach ynghylch a fydd y drefn gyllido ar gyfer yr ymgyrch yn parhau.

GP i ddrafftio llythyr ynghylch eglurder parhad y drefn gyllido ar gyfer Amser i Newid Cymru.

Nododd y grŵp fod diffyg lleoedd diogel i bobl mewn argyfwng, a bod hwn yn parhau i fod yn fater pwysig. Mae problemau adrodd o ran y bobl sy'n llithro drwy'r bylchau yn y system gyfredol o ymyrraeth mewn sefyllfaoedd o argyfwng. O safbwynt yr heddlu, mae llawer o bwysau arnynt, ac mae hyn yn arwain at sefyllfaoedd lle nad yw pobl yn cael eu cadw yn y ddalfa, ond yn hytrach yn cael eu hanfon at ysbyty'r meddwl neu'n cael eu gadael mewn mannau anniogel. Mae'r pwysau ar yr heddlu o ran ymdrin â phobl sydd ag iechyd meddwl gwael yn fwy eang, ac mae pobl ddu yn fwy tebygol o gael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl drwy'r heddlu.

Roedd y cwestiynau a'r pryderon allweddol a nodwyd gan y grŵp ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn cynnwys y rhai a ganlyn:

- A fyddai'n fwy effeithiol pe bai'r grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gweithredu fel bwrdd cynghori gweinidogol?
- Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw farn dryloyw gan yr heddlu o ran adroddiadau 'mewn argyfwng'.
- A fu unrhyw ddatblygiadau o ran lleoedd diogel nad ydynt yn ymwneud ag iechyd?

EH i lunio dogfen friffio ar gyfer ACau ynghylch y Concordat Gofal Mewn Argyfwng.

Gofynnodd **LW** a fyddai'r materion sy'n cael eu trafod gan y grŵp yn destun addas ar gyfer dadl gan Aelodau unigol. Cytunwyd y byddai nodyn briffio yn cael ei lunio i ACau y grŵp, at ddibenion awgrymu y dylid cynnal dadl gan Aelodau unigol yn y Cynulliad. Bydd y briff yn cynnwys y pwyntiau uchod, yn ogystal â modelau eraill o lefydd diogel sydd ar gael 24/7, yr hyn sydd o'i le ar hyn o bryd, a'r hyn sydd angen ei wneud yn wahanol.

EH i ddrafftio llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd ar bryderon y grŵp ynghylch

DRAFT

Cytunodd y grŵp i ddrafftio llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd yn gofyn am eglurder ynghylch y cwestiynau allweddol uchod, gan ddefnyddio'r cyfle hwn hefyd i godi'r mater parhaus o'r drefn grwpio mewn perthynas â gwario ar ddementia Diolchodd **LW** i'r aelodau am eu cyfraniadau, ond pwysleisiodd yr angen am nifer uwch o faterion, a materion yn yr arfaeth, i gynnal y pwysau o ran darpariaeth iechyd meddwl.	cynnydd y gwaith ar y Concordat Gofal Mewn Argyfwng. Aelodau o **Gynghrair Iechyd Meddwl Cymru** i nodi rhagor o faterion i'r grŵp trawsbleidiol eu blaenoriaethu
CPGED/NAW5/06 - Unrhyw fater arall	**Camau i'w cymryd**
Cododd **LW** y mater o gymorth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Dywedodd y grŵp nad yw'r ystadegau a ddarperir gan Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn gadarnhaol iawn, ac y byddai canolbwyntio ar y mater hwn yn ddefnyddiol iawn. Nodwyd y sefydliadau hynny sy'n canolbwyntio ar y mater hwn ar hyn o bryd ac yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc. Mae'n bosibl na fydd y pwysau ar CAMHS yn cael ei ddatrys gan fuddsoddiad ychwanegol, ond yn hytrach gan ganfyddiadau astudiaethau bod ymyrraeth gynnar yn ffactor allweddol. Roedd consensws ymhlith y grŵp bod angen mwy o ffocws ar weithgareddau ataliol, gweithgareddau yn yr ysgol, gweithredu cymunedol, ac yn y blaen, yn hytrach na chanolbwyntio yn unig ar alw am fwy o ofal clinigol a gofal argyfwng. Ychwanegodd **SD** nad oes llawer o blant du yn cael mynediad at CAMHS, o'u cymharu â nifer y dynion sy'n cael mynediad at wasanaethau oedolion. Dywedodd hi fod dynion ifanc du, yn gyffredinol, yn cael mynediad at y system iechyd meddwl drwy'r heddlu. Beth yw'r rhwystrau o ran ceisio cymorth neu gael mynediad at wasanaethau yn gynharach? Dywedodd **MT** wrth y grŵp fod astudiaeth gan Lywodraeth yr Alban ar effeithiolrwydd gwasanaethau CAMHS yn yr Alban yn cael ei chynnal ar hyn o bryd, ac y byddai'n bosibl cyflwyno'r manylion mewn cyfarfod diweddarach. Cododd **MT** y ffaith bod nifer o grwpiau trawsbleidiol gwahanol yn ymdrin ag iechyd meddwl gwael ar hyn o bryd, a'u bod yn bwysig pwysleisio'r anghenion iechyd meddwl a'r diffyg gefnogaeth seicolegol sy'n berthnasol i holl gyflyrau iechyd tymor hir. Bydd **MT** yn sicrhau bod y grwpiau'n ymwybodol o waith ei gilydd er mwyn iddynt allu cydweithio ar faterion	**MT** i rannu manylion cyswllt gyda grwpiau trawsbleidiol eraill sydd â chysylltiadau iechyd meddwl.

DRAFT

cysylltiedig yn y dyfodol. Cododd **JW** yr adolygiad o Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) a gafodd ei gomisiynu gan Lywodraeth y DU ac sy'n cael ei arwain gan Simon Wessely, llywydd sy'n gadael y Coleg Seiciatryddion Brenhinol, a'r newidiadau a'r goblygiadau a fydd yn deillio ohono o ran darpariaeth iechyd meddwl yng Nghymru. Bydd adroddiad interim yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2018, yn nodi blaenoriaethau'r adolygiad. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei godi yn y cyfarfod nesaf at ddibenion cael y wybodaeth ddiweddaraf ac ystyried beth yw'r posibilrwydd deddfwriaethol ar gyfer gwneud pethau'n wahanol yng Nghymru.	**LC** i ychwanegu'r adolygiad o Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) i agenda'r cyfarfod nesaf.
Diolchodd EH i bawb am ddod i'r cyfarfod.	

DRAFT